

Yn dilyn trafodaethau gyda LIC, gallwn gadarnhau bod gofynion portffolio'r Fframwaith Cymwyseddau Iaith wedi'u diwygio fel a ganlyn:

- tystiolaeth ysgrifenedig a allai gynnwys cynlluniau gwers neu adnoddau a baratowyd gennych yn ystod y flwyddyn
- tasgau a osodwyd yn ystod sesiynau iaith Rhagoriaith, e.e. tasgau ysgrifennu/darllen/llafar
- unrhyw dystiolaeth ffilm fu'n bosibl i chi gwblhau ar leoliad (gall hyn gynnwys gwersi anghydamserol) NEU wers mini meicro wedi'i ffilmio gyda chyd-fyfyrwyr
- adfyfyriad ysgrifenedig ar eich defnydd o'r Gymraeg yn y dystiolaeth ffilm ynghyd â golwg strategol o'r modd y byddwch yn adeiladu ar eich profiadau a'ch defnydd o'r Gymraeg yn broffesiynol yn y dyfodol (hyd at 1000 gair).

Bydd y sesiwn olaf sydd gyda chi ar eich hamserlen gyda thîm Rhagoriaith yn cael ei phennu nawr fel amser rhydd i'ch galluogi i ymgymryd â'r gwaith o ffilmio gwersi mini meicro. Byddwn hefyd yn sicrhau bod tîm Rhagoriaith ar gael yn ystod y cyfnod hwn i ateb unrhyw gwestiynau. Nod y newidiadau hyn yw gwneud pethau'n haws i chi dan yr amgylchiadau presennol ac ni ddylent arwain at unrhyw boeni neu bwysau ychwanegol. Cofiwch mai pwrpas y broses hon yw cynnull portffolio sy'n rhoi tystiolaeth o'r hyn sy'n ymarferol bosibl dan amgylchiadau heriol iawn.